



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022 (WGC 005/2022)

Mae hwn yn gylchlythyr sy'n cyflwyno diwygiadau effeithlonrwydd ynni ac awyru newydd 2022 i'r Rheoliadau Adeiladu a Dogfennau Cymeradwy L2 ac F2 i Gymru. Cymeradwy.

Cyhoeddwyd gyntaf: 29 Medi 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 29 Medi 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

[Cylchlythyr reoliadau adeiladu](#)

[Cyflwyniad](#)

[Cwmpas](#)

[Diwygio Rheoliad](#)

[Dogfennau Cymeradwy](#)

[Trefniadau Trosiannol](#)

[Gwybodaeth Bellach](#)

[Ymholiadau](#)

[Atodiad A](#)

[Atodiad B](#)

[Atodiad C](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cylchlythyr reoliadau adeiladu

**Rhif y Cylchlythyr:** WGC 005/2022

**Dyddiad cyhoeddi:** 29/09/2022

**Statws:** Er gwybodaeth

**Teitl:** Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

**Cyhoeddwyd gan:** Colin Blick, Rheolwr Technegol Safonau Adeiladu

**Cyfeiriwyd at:**

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (Anfonwch ymlaen at: Swyddogion Rheoli Adeiladu Awdurdodau)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Anfonwch ymlaen at: Lleol Aelodau'r Senedd)

Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol

CICAIR Limited

Cyngor y Diwydiant Adeiladu

Fforwm Personau Cymwys

## Crynodeb

Mae hwn yn gylchlythyr sy'n cyflwyno diwygiadau effeithlonrwydd ynni ac awyru newydd 2022 i'r Rheoliadau Adeiladu a Dogfennau Cymeradwy L2 ac F2 i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gymru. Cymeradwy.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu  
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Llinell Uniongyrchol: 0300 060 4440

E-bost: [enquiries.brconstruction@llyw.cymru](mailto:enquiries.brconstruction@llyw.cymru)

Gwefan: <https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio>

## Cyflwyniad

Rwy'n cael fy nghyfeirio gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022 (S.I. 2022 Rhif 993 (W. 210)) ("y Rheoliadau Diwygio") a wnaed ar 26 Medi 2022. Bydd Rheoliadau 1 a 3 yn dod i rym ar 22 Tachwedd 2022 a bydd rheoliadau 2 a 4 yn dod i rym ar 29 Mawrth 2023 yn amodol ar y darpariaethau y cyfeirir atynt isod.

Rwy'n cael fy nghyfeirio hefyd gan Weinidogion Cymru er mwyn tynnu eich sylw at gyhoeddi Dogfen Gymeradwy F (Awyru), cyfrol 2 2022 a Dogfen Gymeradwy L (Cadwraeth Tanwydd a Phŵer) cyfrol 2 2022.

Yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984, gwnaed y rheoliadau diwygio ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cyngori ar Reoliadau Adeiladu Cymru.

Pwrpas y Cylchlythyr hwn yw:

- Tynnu sylw at y gwelliannau ac egluro'r newidiadau maen nhw'n eu gwneud i'r Rheoliadau Adeiladu 2010.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Tynnu sylw at gyhoeddi Dogfennau Cymeradwy newydd F, cyfrol 2 a dogfen Gymeradwy L, cyfrol 2.
- Tynnu sylw at y darpariaethau trosiannol, sy'n berthnasol i adeiladau a safleoedd unigol sy'n cael eu dal gan rai darpariaethau trosiannol blaenorol.

Nid yw'r cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ynghylch y gofynion technegol yn Rheoliadau Adeiladu 2010 gan mai dogfennau Cymeradwy yw'r rhain.

**Atodiad A** i'r Gylchdaith hon yn nodi ar ffurf tabular yr holl newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu 2010 a wnaed gan S.I. 2022 Rhif 993 (W. 210).

## Cwmpas

Mae'r rheoliadau diwygio a Dogfennau Cymeradwy newydd L (cyfrol 2) ac F (cyfrol 2) yn gymwys ar gyfer adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru yn unig.

## Diwygio Rheoliad

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu 2010 i:

- Newid y ffordd y caiff systemau cynhyrchu trydan ar y safle eu rheoleiddio.
- Gwneud darpariaethau trosiannol (gan gynnwys gwneud newidiadau i'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022).

## Dogfennau Cymeradwy

Mae Dogfen gymeradwy F: awyru (rhifyn 2010 sy'n ymgorffori rhagor o ddiwygiadau 2010) yn cael ei dynnu'n ôl mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Enwch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

adeiladau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes heblaw anheddau ac mae'n cael ei disodli gan Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 2: Adeiladau ar wahân i anheddau rhifyn 2022.

Dogfennau cymeradwy L2A arbed tanwydd a phŵer mewn adeiladau newydd ar wahân i anheddau, rhifyn 2014 (gan ymgorffori gwelliannau 2016); L2B: mae arbed tanwydd a phŵer mewn adeiladau presennol ar wahân i anheddau, rhifyn 2014 (sy'n ymgorffori gwelliannau 2016) yn cael ei dynnu'n ôl. Mae nhw'n cael eu disodli gan Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau ar wahân i anheddau rhifyn 2022.

Mae **Atodiadau B a C** i'r Cylchlythyr hwn yn rhoi'r Hysbysiad o Gymeradwyaeth ar gyfer y Dogfennau Cymeradwy newydd a'r Hysbysiad Tynnu yn Ôl ar gyfer rhifynau blaenorol o'r Dogfennau Cymeradwy, yn amodol ar y darpariaethau trosiannol.

Mae'r Dogfennau Cymeradwy ar gael yn: [Rheoliadau adeiladu: dogfennau cymeradwy](#)

## Trefniadau Trosiannol

Nid yw'r Rheoliadau Diwygio a Dogfennau Cymeradwy Newydd yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu ar adeilad penodol, pan roddir hysbysiad adeilad neu hysbysiad cychwynnol i gynlluniau llawn, neu bod cynlluniau llawn wedi'u hadneuo, i'r awdurdod lleol, mewn perthynas â'r adeilad hwnnw, cyn i'r rheoliadau hyn ddod i rym, ar yr amod bod y gwaith adeiladu ar yr adeilad hwnnw yn cael ei ddechrau o fewn 12 mis i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Mewn rhai achosion, bydd ceisiadau o ran nifer o adeiladau ar safle, er enghraifft nifer o dai. Mewn achosion o'r fath, dim ond yr adeiladau **unigol** hynny y mae gwaith yn cael ei ddechrau a all fanteisio ar y darpariaethau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

trosiannol oni bai bod y cais wedi'i gyflwyno cyn 31 Gorffennaf 2014 ac mae gwaith adeiladu wedi dechrau cyn 31 Gorffennaf 2015 mewn perthynas â'r cais hwnnw.

## Gwybodaeth Bellach

Gellir gweld Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022 ar y ddolen ganlynol: [Legislation.gov.uk](https://legislation.gov.uk)

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Paul Keepins, Y Tîm Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 0300 628646.

E-bost: [enquiries.brconstruction@llyw.cymru](mailto:enquiries.brconstruction@llyw.cymru)

## Atodiad A

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r holl newidiadau a wnaed gan S.I. 2022 Rhif 993 (W. 210) i'r Rheoliadau Adeiladu 2010:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

---

S.I. 2010/ 2214	S.I. 2022/993	Cam Gweithredu
-----------------------	------------------	----------------

---

Rhif Rheoliad	Rhif Rheoliad No.
------------------	-------------------------

---

Atodlen 1	2	Mae Rheoliad 2 yn diwygio Atodlen 1 y Rheoliadau Adeiladu i nodi bod rhaid i'r gwasanaethau adeiladu sefydlog ddefnyddio ynni yn effeithlon i safon resymol; i gyflwyno gofynion i osod offer cynhyrchu trydan ar y safle mewn perthynas ag adeiladau annomestig
	3	Mae Rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 21 (darpariaethau trosiannol) Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022 (S.I 2022/564) i eithrio Rhannau 2 a 3 o'r rheoliadau hyn rhag bod yn berthnasol i safleoedd sy'n dod o dan ddarpariaethau trosiannol blaenorol penodol.
	4	Darpariaethau trosiannol. Yn nodi'r darpariaethau trosiannol ar gyfer y rheoliadau diwygio.

---

## Atodiad B

### Deddf Adeiladu 1984

## HYSBYSIAD YN CYMERADWYO DIWYGIO DOGFENNAU YN RHOI ARWEINIAD YMARFEROL O RAN GOFYNION

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



## RHEOLIADAU ADEILADU 2010

Drwy hyn mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y pwerau dywededig o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r diwygiadau i'r Ddogfen Gymeradwy a restrir isod at ddibenion rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yng Nghymru yn unig.

Mae'r gymeradwyaeth yn dod i rym ar 29 Mawrth 2023 ac eithrio mewn perthynas â gwaith ar adeiladau unigol y rhoddwyd hysbysiad adeilad neu hysbysiad cychwynnol ar eu cyfer neu gynlluniau llawn a ddyddodwyd cyn y dyddiad hwnnw ac ar yr amod bod y gwaith yn dechrau cyn 29 Mawrth 2024. Nid yw'r gymeradwyaeth chwaith yn dod i rym ar 29 Mawrth 2023 o ran safleoedd lle mae hysbysiad adeilad neu hysbysiad cychwynnol wedi'i roi neu gynlluniau llawn a ddyddodwyd cyn 31 Gorffennaf 2014 ac y dechreuodd y gwaith adeiladu cyn 31 Gorffennaf 2015.

Dogfen Gymeradwy	Adeiladu y caiff y ddogfen ei chymeradwyo	Dyddiad y daw y diwygiad i rym
Dogfen Gymeradwy F, Awyru, Cyfrol 2: Adeiladau ar wahân i anheddau - rhifyn 2022	Rheoliadau 39, 44 ac Atodlen 1: Rhan F	29 Mawrth 2023
Dogfen Gymeradwy L, Arbed tanwydd a phŵer, Cyfrol 2: Adeiladau ar wahân i anheddau - 2022	Rheoliadau 4, 6, 21, 22, 23, 24, 25, 25A, 25B, 25C, 26, 26A, 27, 27A, , 28, 40, 40A, 43, 44, 44ZA ac Atodlen 1, Rhan L	29 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Atodiad C

## Deddf Adeiladu 1984

### HYSBYSIAD O DYNNU CYMERADWYAETH DOGFENNAU YN ÔL GAN ROI ARWEINIAD YMARFEROL O RAN GOFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010

Drwy hyn mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y pwerau dywededig o dan adran 6, wedi tynnu cymeradwyaeth yn ôl a thynnu'r dogfennau a restrir isod yn ôl yn rhannol at ddibenion rhoi canllawiau ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig y Rheoliadau Adeiladu 2010.

Mae tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl yn dod i rym ar 29 Mawrth 2023. ac eithrio mewn perthynas â gwaith ar adeiladau unigol y rhoddwyd hysbysiad adeilad neu hysbysiad cychwynnol ar eu cyfer neu gynlluniau llawn a ddyddodwyd cyn y dyddiad hwnnw ac ar yr amod bod y gwaith yn dechrau cyn 29 Mawrth 2024. Hefyd nid yw tynnu'r caniatâd yn ôl yn dod i rym ar 29 Mawrth 2023 mewn perthynas â safleoedd lle rhoddwyd hysbysiad adeilad neu hysbysiad cychwynnol neu gynlluniau llawn a ddyddodwyd cyn 31 Gorffennaf 2014 a dechreuwyd ar y gwaith adeiladu cyn 31 Gorffennaf 2015.

---

#### Dogfen Gymeradwy

---

Dogfen Gymeradwy L2A – rhifyn 2014 - Arbed tanwydd a phŵer mewn adeiladau newydd heblaw anheddau a phob diwygiad iddo.

---

Dogfen Gymeradwy L2B - rhifyn 2014 - Arbed tanwydd a phŵer mewn adeiladau

---

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

---

## Dogfen Gymeradwy

---

presennol ar wahân i anheddau a phob diwygiad iddo.

---

Dogfen Gymeradwy F - Awyru - rhifyn 2010 - Canllawiau a diwygiadau iddo ar gyfer adeiladau newydd a phresennol ar wahân i anheddau.

---

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-diwygio-cymru-rhif-2-2022-wgc-0052022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).